Cyfarfod Cyngor Cymuned Aberffraw yn Ystafell JOW, Neuadd y Pentref

Nos Fercher, Ebrill 15, 2026 am 7yh

Meeting of the Aberffraw Community Council to be held in the JOW Room, Aberffraw Village Hall, 7 pm Wednesday 15th of April 2026

COFNODION / MINUTES

1	**Croeso** Bryan Owen, Barry Owen, Ellie Smith, Chris Tops, Rachel Jones, Cynghorydd John Ifan Jones **Clerc Elen Jones** **Ymddiheuriadau** Douglas Folwie, Arfon Wyn, Oliver Fowlie, Elwyn Evans Glenys Stallwood, Vaughan Pritchard, Richard Owen, John Andrews Trafododd yr aelodau oedd yn bresennol y Cynghorydd Richard Owen a nodwyd ei fod wedi bod yn absennol o fwy na chwe chyfarfod yn olynol. Er y byddai hyn fel arfer yn arwain at hysbysebu'r sedd wag, cytunodd y cynghorwyr yn unfrydol, o ystyried amgylchiadau personol, i roi mwy o amser i'r Cynghorydd Owen ddychwelyd i fynychu cyfarfodydd y Cyngor.	**Welcome** Bryan Owen, Barry Owen, Ellie Smith, Chris Tops, Rachel Jones, Cllr John Ifan Jones **Clerc - Elen Jones** **Apologies** Douglas Folwie, Arfon Wyn, Oliver Fowlie, Elwyn Evans Glenys Stallwood, Vaughan Pritchard, Richard Owen, John Andrews Members discussed the attendance of Cllr Richard Owen and noted that he has been absent from more than six consecutive meetings. Whilst this would normally result in the vacancy being advertised, councillors unanimously agreed, in light of personal circumstances, to allow Cllr Owen additional time to attend.
2	**Datgan Diddordeb** Rachel Jones declared an interest in any discussions concerning the Cwt Hers	**Declaration of Interests** Rachel Jones yn datgan Diddordeb ynglyn a trafodaethau yn ymwneud a'r cwt hers.
3	**Cytuno ar cofnodion or Cyfarfod Mawrth 18, 2026** Cynigiodd ES fod y cofnodion yn gywir, ac eiliwyd y cynnig gan CT.	**Agree on the minutes of 18 March 2026** The minutes were proposed as correct by ES and seconded by BO.
4	**Materion yn codi**	**Matters arising**

4.1	**Neuadd y Pentref** - Mae drws y Neuadd Bentref wedi cael ei atgyweirio. Mae Sarah Spinks wedi trefnu i allweddi newydd	**Village Hall** - The Village Hall door has been repaired. New keys have been cut by Sarah Spinks, and a

	gael eu torri, ac mae cofrestr allweddi yn cael ei sefydlu ar gyfer y bwrdd hysbysiadau ac allweddi eraill y neuadd. Mae adolygiad o bolisïau'r Neuadd Bentref ar y gweill ar hyn o bryd. Cytunwyd y bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) y Neuadd Bentref yn cael ei gynnal ar **10 Mehefin 2026**. Mae Sarah Spinks wedi paratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y Neuadd Bentref. Mae cais wedi'i gyflwyno i'r Gronfa Hanfodol am **£5,000** i gefnogi gwelliannau, gan gynnwys gosod Wi-Fi. Mae cais grant ar wahân yn cael ei ddatblygu ar gyfer gwelliannau i'r system larwm tân. Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod cofnodion y Neuadd Bentref yn cael eu cyhoeddi ar y wefan. Mae Sarah Spinks a'r Gofalwr wedi cadarnhau bod yr holl drefniadau cyflogaeth yn cydymffurfio â gofynion **HMRC** a'r **Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)**.	key register is being established for the notice board and other hall keys. A review of Village Hall policies is currently underway. It was agreed that the Village Hall AGM will be held on **10 June 2026**. Sarah Spinks has produced a Strategic Development Plan for the Village Hall. An application has been submitted to the Essential Fund for **£5,000** to support improvements, including Wi-Fi installation. A separate grant application is being pursued for improvements to the fire alarm system. Work continues getting the minutes of the Village Hall to the website. Sarah Spinks and the Caretaker have confirmed that all employment arrangements are compliant with HMRC and Department for Work and Pensions requirements.
4.2	**Maes Chwarae** - Mae'r Clerc wedi gofyn am ddyfynbrisiau ar gyfer atgyweirio'r ardal chwarae yn dilyn yr Asesiad Risg. Mae VP wedi siarad yn garedig â Fferm Llangwyfan i fenthyg y peiriant golchi pwysedd uchel, a bydd gwaith yn cael ei wneud yn fuan i lanhau offer yr ardal chwarae.	**Play Area** - Clerk has requested quotes for repairs of the play area following the Risk Assessment. VP has kindly spoken to Llangwyfan Farm to borrow the pressure washer, and work will be undertaken to clean the play area equipment soon.

4.3	**Ei'n Hanes Ni** - Mae'r digwyddiad wedi'i ohirio. Disgwylir cadarnhad o ddyddiad newydd.	**Ei'n Hanes Ni** - Has been postponed. Awaiting another date.
4.4	**Arwydd Aberffraw** - Bydd Patrick Geal yn ymgymryd â'r gwaith o fewn y mis nesaf. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn mis Mehefin, gan alluogi'r cyllid grant i gael ei ryddhau er mwyn talu cost yr arwydd.	**Aberffraw Sign** Patrick Geal will undertake the works within the next month. It is anticipated that the project will be completed by June, enabling the grant funding to be released to cover the cost of the sign.

4.5	**Tir** - Bydd anfonebau yn cael eu hanfon at bob tenant ym mis Mai. Mae hysbyseb ar gyfer tenantiaeth y cae wedi'i chyhoeddi, a bydd y ceisiadau byddwn yn ei dderbyn yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf.	**Fields -** Invoice will be sent out to all tenants in May. An advert for the field tenancy has been placed and will discuss the applications received at the next meeting.
4.6	**De-fib** -Nodwyd y bydd diffibriliwr newydd yn cael ei ddanfon yn fuan iawn. Bydd y Clerc yn trefnu i drydanwr ei osod cyn gynted ag y bydd wedi cyrraedd.	**De-fib -**It was noted that a new defibrillator will be delivered very soon. The Clerk will arrange for an electrician to install it as soon as it has arrived.
4.7	**Mynwent** - Gofynnwyd, os bydd unrhyw fedd newydd yn cael ei gloddio yn y dyfodol, y dylai'r trefnydd angladdau gysylltu â'r Clerc. Nododd ac fe gytunodd aelodau'r Cyngor y byddai'r pridd a gloddiwyd yn cael ei ddefnyddio i lenwi a thrwsio mannau sydd angen sylw yn y fynwent.	**Cemetery** - It was requested that, if any new grave is to be dug in the future, the undertaker should contact the Clerk. Council members noted and agreed that the excavated soil would be used to fill and repair areas within the cemetery that require attention.
4.8	**Cwt Hers -** Yn dilyn cymeradwyaeth unfrydol y dyfynbris gan yr holl gynghorwyr, awdurdodwyd Cadarn i gynnal yr archwiliad. Cytunodd yr aelodau i aros am adroddiad llawn yr archwiliad cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch y camau nesaf.	**Cwt Hers** - Following unanimous approval of the quotation by all councillors, Cadarn was authorised to undertake the inspection. Members agreed to await the full inspection report before making any decisions on the next steps.

5.0	**Priffyrdd** Llinellau Melyn - Tyddyn Traeth - Bydd y Cynghorydd yn gofyn am ddiweddariad gan yr Adran Briffyrdd. **Postyn marcio ger Treiddon** Nododd y Clerc ei bod wedi cysylltu â'r Adran Briffyrdd ynglŷn â'r postyn marcio ac wedi derbyn yr ymateb canlynol gan yr Adran Briffyrdd: *"Rwyf yn deall bod ein swyddogion cynnal ffyrdd yn ymwybodol o'r sefyllfa hon, gan fod ymyl y ffordd yn dirywio, a byddaf yn codi eich sylwadau gyda nhw.* *Byddwn yn gefnogol i'r bwriad o osod pyst du a gwyn am resymau diogelwch, ond hoffwn gadarnhau a oes unrhyw waith neu gynlluniau eraill eisoes yn cael eu hystyried gan ein hadran Cynnal a Chadw Priffyrdd cyn trefnu unrhyw waith.* *Byddaf yn cysylltu â chi eto unwaith y byddaf yn*	**Highways** Yellow Lines -Tyddyn Traeth - Cllr to request an update from Highways Department. **Marker post near Treiddon** Clerc noted that she had contacted the Highways department regarding the marker post and received a reply from the Highways department: I understand that our highway maintenance officers are aware of this situation, as the edge of the road is deteriorating, and I will raise your comments with them. I would be supportive of the proposal to install black and white posts for safety reasons, but I would like to establish whether any other works or plans are already being considered by our Highway Maintenance section before arranging any work.
	ymwybodol o'r sefyllfa ynghylch y mater hwn	I will come back to you once I am aware of the position regarding this matter
5.1	**Rhaglen Balchder Bro Llywodraeth y DU** - Clerc wedi datgan diddordeb yn y grant ac felly bydd angen i'r Cyngor benderynnu syt fydd y grant yma yn cael ei wario. Mi fydd y Clerc angen cwblhau ffurflen gais erbyn diwedd Mis Mehefin. Cadarnhawyd bod swm o £7,125 wedi'i ddyrannu i'r Cyngor..	**UK Government's Pride in Place initiative funding** - The Clerk declared an interest in the grant, and therefore the Council will need to decide how the grant funding should be spent. The Clerk will need to complete the application form by the end of June. We have been £7,125 allocated.
6.0	**Gohebiaeth Cynllunio Cyngor Sir Ynys Mon.** Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth gynllunio.o	**Correspondence IACC -** Planning Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth gynllunio

7.0	**Materion ariannol**	**Financial Matters**
7.1	**Diweddariad cyllidol** Gweler tabl isod gyda diweddariad a symuniadau.	**Financial update** Please see the table below with updates and movements.

7.2	**Anfonebu** Gwyndaf Hughes - £263.00 Bodorgan Estate - £10.00 Un Llais Cymru £42.00	**Invoices** Gwyndaf Hughes - £263.00 Bodorgan Estate - £10.00 Un Llais Cymru £42.00
7.3	**Cyflog** Clerc £340.10 HMRC - £85.00	**Wages** Clerc £340.10 HMRC - £85.00
8.0	**Diweddariad Cynghorwyr Sir** Dim diweddariad	**County Councillors Update** No update

8.0 **Materion ar gyfer cyfarfod nesaf Matters for the next meeting** 9.0 **Dyddiad**

cyfarfod nesaf 20/05/26 Date of next meeting 20/05/26